

CYFLWYNIAD I'R THEATR GORFFOROL

Gofynnwyd i Eddie Ladd, beth yw Theatr Gorfforol? Ei hateb oedd, ei fod yn gyfuniad o:

- eiriau
- cerddoriaeth
- technoleg
- pob math o offer cyfarwydd.

Mae'n ffurf ar theatr lle mae'r corff yn arwain. Y corff sy'n gyrru'r naratif.

Pan fydd rhywun yn ystyried Theatr Gorfforol beth sy'n dod gyntaf?

Y pwnc weithiau a'r gofod bryd arall.

Wrth i Marc Rees ac Eddie Ladd symud ymlaen i sôn am dirlun Theatr Gorfforol yng Nghymru fe gyfeirion nhw at nifer o gwmnïau a fu'n ddylanwadol yn y maes hwn ar hyd y blynyddoedd. Yn eu plith enwyd **Brith Gof** a **Frantic Assembly**.

BRITH GOF

Roedd **Brith Gof** yn gwmni perfformio arbrofol Cymreig a ddaeth yn fyd-adnabyddus yn y 1980au a 1990au am eu perfformiadau corfforol a dyluniadol drawiadol oedd yn adeiladu ar chwedlau a hanes Cymreig. Eu cyfarwyddwyr artistig oedd Mike Pearson a Clifford McLucas.

Bu Marc Rees ac Eddie Ladd yn perfformio gyda Brith Gof.

FRANTIC ASSEMBLY

Er bod pencadlys Frantic Assembly erbyn hyn yn Llundain fe sefydlwyd y cwmni yn Abertawe pan oedd y ddau gyd-sylfaenydd, Scott Graham a Steven Hoggart, yn fyfyrwyr yn y Brifysgol yno ar ddechrau'r 1990au.

Mae ganddyn nhw eu llyfr eu hunain ar ddyfeisio theatr sy'n glasur yn y maes, yn llawn syniadau ac ymarferion allai helpu i ddeall genre y Theatr Gorfforol yn well.

Detholaid o lyfr Frantic Assembly:

TREIGL AMSER

Meddylwch am sefyllfa syml i ddau gymeriad: ar sofffa o flaen y teledu, mewn caffi, mewn bwyty. Gofynnwch i'r perfformwyr i feddwl am eu symudiadau dros gyfnod o amser – yr holl newidiadau yn y safleodd a'r ystumiau allai ddigwydd dros gyfnod o amser. Os ydyw'n helpu i chi weld hyn, ceisiwch feddwl am gamera CCTV yn eich gwyllo yn ystod yr amser hwn a dal pob symudiad o'ch eiddo.

Mynnwch fod y ddau berfformiwr yn penderfynu ar eu symudiadau unigol, gan ofalu cynnwys munudau o lonyddwch a gorffwys. Yna perfformiwch yr olygfa ac fe ddaw stori gorfforol i'r golwg. Efallai y bydd rhai munudau y byddwch am ddal atynt-eraill y byddwch am eu newid.

Chwiliwch am hanes rhai o'r cwmnïau neu'r artistiaid eraill y cyfeirir atynt:

- Volcano
- Earthfall
- Good cop Bad Cop
- Cai Tomos

Mae Marc Rees ac Eddie Ladd yn penderfynu ar ddiwedd y darn ffilm beth yw'r 5 prif elfen allweddol sy'n perthyn i Theatr Gorfforol sef:

1. Gofod
2. Corff (Coriogroffi)
3. Pwnc/Testun
4. Offer- nid dim ond 'props'
5. Technoleg (golau, sain, fideo)

Tasg 2

Dywedodd Eddie Ladd yn ystod y ffilm y gallai **cerdd** weithiau fod yn sbardun i greu darn o theatr gorfforol. Darllenwch y gerdd *Cilmeri* gan Gerallt Lloyd Owen ac ewch ati i greu darn o theatr gorfforol yn seiliedig ar y gerdd:

CILMERI



Yn cynnwys gwybodaeth a drwyddedwyd dan Drwydded Llywodraeth Anfasnachol v1.0.

Tasg 3



Yn ystod y 1960au bu ymgyrch unedig yn Llangydeyrn, Cwm Gwendraeth i atal Corfforaeth Abertawe rhag boddi'r cwm ar gyfer eu cyflenwad dŵr. Colli bu hanes trigolion Tryweryn ond ennill y frwydr wnaeth pobl Llangydeyrn.

Ymchwiliwch yr hanes ac ewch ati mewn grwpiau i ail greu'r hanes hwnnw yn arddull Theatr Gorfforol.

[Llyfr defnyddiol yw *Sefyll yn y Bwlch* Brwydr Llangydeyrn 1960-1965 gan W.M Rees]

Tasg 4

Yn ystod y ffilm mae Eddie Ladd hefyd yn dweud y gellir weithiau gymryd drama (neu ddarn o ddrama) a'i gweddnewid trwy ei pherfformio yn arddull Theatr Gorfforol.

Darllenwch ac astudiwch y darn canlynol allan o'r ddrama 'Macbeth' (Shakespeare) ac mewn parau arbrowfch trwy ei gyflwyno mewn arddull wahanol gan roi'r pwyslais ar symudiadau corfforol- heb anghofio'r geiriau.

Daw Macbeth i mewn yn cario dau ddagr gwaedlyd

ARGLWYDDES: Fy ngŵr!

MACBETH: Rwyf wedi cyflawni'r weithred. Chlywaist ti mo'r sŵn?

ARGLWYDDES: Clywais y dylluan yn sgrechian a'r criced yn crïo.
Oni siaradoch chi?

MACBETH: Pryd?

ARGLWYDDES: Nawr.

MACBETH: Wrth i mi ddisgyn?

ARGLWYDDES: Ie.

MACBETH: Ust! Pwy sy'n gorwedd yn yr ail ystafell?

ARGLWYDDES: Donalbain.

MACBETH: (*yn edrych ar ei ddwylo*) Mae hon yn olygfa druenus!

- ARGLWYDDES: Mae dweud golygfa druenus yn syniad ffôl.
MACBETH: Wrth i un chwerthin yn ei gwsg, ac i un arall lefain ‘Mwrdrwr!’, dihunodd y ddau ei gilydd.
Sefais a gwrando arnynt. Ond dweud eu pader wnaethant a mynd yn ôl i gysgu.
- ARGLWYDDES: Mae dau yn cysgu yn yr ystafell drws nesaf.
MACBETH: Llefodd un ‘Duw a’n bendithio’ a’r llall ‘Amen’, fel pe baent wedi fy ngweld â’r dwylo crogwr hyn.
Wrth wrando ar eu hofn ni fedrwn ddweud ‘Amen’ wrth iddyn nhw ddweud ‘Duw a’n bendithio.’
- ARGLWYDDES: Peidiwch â meddwl gormod amdano.
MACBETH: Ond pam na fedrwn ynganu ‘Amen’? Roedd gennyf wir angen derbyn bendith, ond cydiodd yr ‘Amen’ yn fy llwnc.
- ARGLWYDDES: Nid yw’n dda pendroni dros y gweithredoedd hyn.
Gallai ein gyrru’n wallgof.
- MACBETH: Credais i mi glywed llais yn gweiddi, ‘Na chysgwch mwy! Mae Macbeth yn llofruddio cwsg – cwsg diniwed, cwsg sy’n ail-wau llawes fratiog gofal, angau bywyd pob dydd, baddon llafur blin, balm enaid clwyfus, ail saig natur fawr, yr un sy’n darparu maeth yng ngwledd bywyd.’
- ARGLWYDDES: Beth a olygwch?
MACBETH: Ac roedd yn parhau i weiddi, ‘Na chysgwch mwy’ i’r adeilad cyfan; ‘Mae Glamis wedi llofruddio cwsg, ac felly ni chaiff Cawdor gysgu mwy, ni chaiff Macbeth gysgu mwy.’

© y Gymraeg: CBAC 2013

Gwefannau defnyddiol:

www.llangyndeyrn.org

www.franticassembly.co.uk

www.volcanotheatre.co.uk

Clipiau:

Y Cyflwyniad

<http://resource.download.wjec.co.uk.s3.amazonaws.com/vtc/Theatr%20Gorfforol/Part%201%20Cut%202.C.mov>

Y Cefndir

<http://resource.download.wjec.co.uk.s3.amazonaws.com/vtc/Theatr%20Gorfforol/Part%202%20Cut%204C.mov>